

PWYLLGOR PENODIADAU

Cofnodion y cyfarfod Rhithiol a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2021

| | |
|----------------------------|---|
| YN BRESENNOL: | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd) Cynghorydd Bob Parry OBE FRAGS (Is-gadeirydd) Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones ac R Meirion Jones |
| WRTH LAW: | Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, Rheolwr Adnoddau Dynol (CW), Swyddog Adnoddau Dynol (NH), Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| YMDDIHEURIADAU: | Dim |
| HEFYD YN BRESENNOL: | - |

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Bu'r Cynghorydd K P Hughes ddatgan diddordeb personol gan ei fod yn adnabod un o'r ymgeiswyr, nododd ei fod wedi derbyn cyngor cyfreithiol a gan nad oedd yr ymgeisdd yn gyswllt personol agos, roedd modd iddo gymryd rhan yn y cyfarfod.

2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd fel cofnod cywir.

3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD:-

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

4 PENODIADAU STAFF

Prif Weithredwr

Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 12 Hydref, 2021 fe hysbysebwyd swydd y Prif Weithredwr yn allanol rhwng 22 Hydref, 2021 a 22 Tachwedd, 2021. Adroddodd ymhellach, o ganlyniad i waith dadansoddi annibynnol gan Swyddogion AD i greu rhestr fer, roedd yn cael ei argymhell bod y Pwyllgor yn nodi'r ymgeiswyr i'w cyfwled.

Rhodddwyd argymhelliad bod y Pwyllgor Penodiadau yn dilyn y broses ganlynol:-

- Seicolegydd hyfforddedig a chymwys yn cynnal asesiad seicommetreg annibynnol o gymwyseddau ymddygiad yr unigolion, gan nodi unrhyw risgiau y byddai'r Pwyllgor Penodiadau'n dymuno eu hystyried cyn gwneud eu penderfyniad penodi.

- Aseiad senario i brofi lled a dyfnder gwybodaeth mewn perthynas â'r swydd.
- Cyfweiliad proffesiynol gyda dau unigolyn allanol annibynnol ynghyd â'r Pennaeth Proffesiwn AD a Thrawsnewid.
- Cynnal aseiad MTQ48 mewn perthynas â chryfder a gwydnwch meddyliol.
- Bydd holl ganlyniadau'r broses brofi cyn y cyfweiliad terfynol yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor Penodiadau fel sylfaen i'w ddewis terfynol.

PENDERFYNWYD derbyn argymhelliad y swyddog ar gyfer y rhestr fer a chefnogi'r broses recriwtio fel yr amlinellir uchod.

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS
CADEIRYDD**